Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Lesley Griffiths AC**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes
y Llywodraeth

29 Hydref 2013

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2014-15**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref 2013 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15. Er bod ein cwestiynau'n canolbwyntio ar gyllid ar gyfer llywodraeth leol, gwnaethom ymdrin hefyd â meysydd eraill sy'n rhan o'ch portffolio, gan gynnwys cam-drin domestig, cyfiawnder ieuenctid a diogelwch cymunedol, sy'n dod o fewn ein cylch gwaith.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb, fel y bo'n briodol, cyn gynted â phosibl.

Sylwn fod ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft wedi'u seilio ar y pedwar amcan ar gyfer craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau cyllidebol. Defnyddiwyd yr amcanion hyn ar gyfer ein hystyriaethau ninnau ac rydym wedi nodi'r amcan perthnasol sy'n ymwneud â phob un o'r materion isod. Anfonir copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei ystyriaeth gyffredinol ynghylch y gyllideb ddrafft a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**1. Blaenoriaethau llywodraeth leol**
*(Amcanion ar gyfer craffu: Blaenoriaethu, fforddiadwyedd)*

Nodwn y bydd cyfanswm y dyraniad refeniw a chyfalaf ar gyfer maes rhaglenni gwariant 'cyllid llywodraeth leol' yn gostwng o £4.648 biliwn yn 2013-14 i £4.466


Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8147
E-bost / Email : PwyllgorCCLll@cymru.gov.uk

biliwn yn 2014-15. Mae hyn yn ostyngiad o 3.9%, neu 5.7% mewn termau gwirioneddol.

Yn eich tystiolaeth, dywedasoch wrthym fod "natur hollol newydd yr her ariannol bresennol sy'n ein hwynebu yn golygu ei bod yn anochel y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol weithio o fewn cyllidebau llai", a gwnaethoch gydnabod ei bod "yn anochel y bydd [y gyllideb hon] yn cael effaith ar Awdurdodau Lleol ac ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol."

Yn ystod ein hymchwiliad diweddar ynghylch cydweithredu ym maes llywodraeth leol, dywedodd Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym ei fod o'r farn y byddai mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu ymdopi yn ystod y ddwy flynedd nesaf gyda'r lefelau llai o gyllid a fwriedir. Fodd bynnag, aeth yn ei flaen i fynegi'r pryder a ganlyn: "if austerity continues in a deep form over a longer period of time, the sustainability of certain authorities will be in doubt."

Gwnaethom ofyn ichi am effaith debygol y gostyngiadau mewn cyllid ar wasanaethau statudol ac anstatudol, gan nodi bod eich papur wedi rhybuddio na ddylai awdurdodau lleol wneud "penderfyniadau yn y tymor byr", fel cau canolfannau hamdden a llyfrgelloedd. Dywedasoch wrthym eich bod wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol "am beth amser ar y gweddnewidiad sydd ei angen i reoli'r cyfuniad o gyfyngiadau ariannol, cynnydd yn y galw a phwysau demograffig".

At hynny, dywedasoch wrthym, er bod awdurdodau lleol o dan rwymedigaeth i gyflawni eu dyletswyddau statudol, nad oeddech am weld "*salami-slicing*" yng nghyswllt gwasanaethau anstatudol yn benodol. Dywedasoch fod angen i awdurdodau lleol chwilio am enghreifftiau o'r arferion gorau a defnyddio'u dychymyg o ran eu dulliau o ddarparu gwasanaethau.

O gofio'r ffaith ichi gydnabod "natur hollol newydd" y gostyngiadau fel rhan o'r dyraniad cyllideb hwn ar gyfer llywodraeth leol, credwn ei bod yn bwysig ichi barhau i gefnogi awdurdodau lleol o ran canfod a gweithredu unrhyw newidiadau neu welliannau yn y modd y maent yn darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, a hynny er mwyn lliniaru effeithiau'r gostyngiadau cyllidebol ar y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Rydym yn disgwyl ichi fonitro'n agos y modd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â'r gostyngiadau ac unrhyw effaith ganlyniadol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Rydym yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod fel rhan o'n gwaith craffu ehangach.

At hynny, mae gennym rai pryderon penodol ynghylch effaith y toriadau cyllidebol ar wasanaethau pwysig nad ydynt wedi'u diogelu o reidrwydd, fel llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden. Rydym yn cytuno â chi nad yw penderfyniadau tymor byr i gau cyfleusterau o'r fath yn ddull cynaliadwy o ymdrin â gostyngiadau cyllidebol. Serch hynny, er eich bod yn hyderus y gallai awdurdodau lleol osgoi penderfyniadau tymor byr, roedd yn llai clir o'ch tystiolaeth sut yr ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud hyn. **Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gennych ynghylch y pwynt hwn.**

## 2. Bod yn barod am ostyngiadau arfaethedig

*(Amcanion ar gyfer craffu: proses gyllidebol, gwerth am arian, blaenoriaethu)*

Fel y nodwyd yn gynharach, sylwn y bydd y dyraniad ar gyfer maes rhaglenni gwariant 'cyllid llywodraeth leol' yn gostwng £182 miliwn (5.7% mewn termau gwirioneddol) yn 2014-15. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigurau yng Nghyllideb Derfynol wedi'i hailddatgan 2013-14 cynlluniau dangosol 2014-15, a nododd ostyngiad o £54 miliwn yn unig yn y cyswllt hwn.

A hynny'n gefndir, gwnaethom ofyn am eich barn am y dystiolaeth a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, gan ddisgwyl toriadau i gyllideb llywodraeth leol, sef ei bod yn debyg nad yw llywodraeth leol yng Nghymru yn barod am ostyngiadau i'r graddau sy'n debygol o ddod i ran cyllid lleol ar gyfer 2014-15. Dywedasoch wrthym eich bod yn anghytuno'n llwyr â hynny, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal trafodaethau â llywodraeth leol ers adroddiad Simpson yn 2011 ynghylch yr amodau ariannol gynyddol heriol y byddai'n rhaid iddynt eu hwynebu. Dywedasoch fod awdurdodau lleol wedi dweud wrthych eu bod wedi'u hamddiffyn yn dda ers tair blynedd ond, mewn trafodaethau â hwy ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf, mai eu dewis mwyaf optimistaidd hwy oedd eich dewis mwyaf pesimistaidd chi, yn ôl pob tebyg.

Nodwn y gwahaniaeth sydd i'w weld rhwng eich barn chi a barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran y graddau y mae awdurdodau lleol yn barod ar gyfer y dyraniad is yn y gyllideb, ac mae hwn yn fater y byddem am ei drafod eto â chi maes o law, fel rhan o'n gwaith dilynol ar effaith y gostyngiadau cyllidebol ar waith awdurdodau lleol o ddarparu gwasanaethau.

## 3. Grantiau Penodol

*(Amcanion ar gyfer craffu: proses gyllidebol, gwerth am arian)*

O ran grantiau penodol, gwnaethom ofyn am eich barn ynghylch sylwadau Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych fod awdurdodau lleol yn teimlo fel pe bai eu dwylo wedi'u clymu y tu ôl i'w cefnau oherwydd penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch neilltuo arian. Dywedasoch eich bod yn anghytuno'n gadarn â'r farn honno oherwydd dim ond 24% o'r cyllid yn y grant cynnal refeniw sydd ar ffurf grantiau penodol. Fodd bynnag, nodwn eich barn, o ran rhai o'r grantiau penodol llai, y gall swm sylweddol o'r cyllid gael ei ddefnyddio yn y gwaith o'u gweinyddu. Rydym yn croesawu eich datganiad eich bod wedi gofyn i'ch cyd-Weinidogion ystyried y mater hwn. Nodwn hefyd eich datganiad nad oes gennych y diogelwch gwasanaethau cymdeithasol o 1% ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn bwriadu monitro effaith hyn ar wasanaethau llywodraeth leol.

At hynny, mae gennym bryderon cyffredinol ynghylch a yw'r fformiwla ariannu a ddefnyddir i ddosbarthu'r grant cynnal refeniw yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghydraddodlebau, yn arbennig mewn cymunedau difreintiedig. **Credwn y dylech ystyried y mater hwn ymhellach.**

**4. Cytundebau Perfformiad a Chanlyniadau**
*(Amcan ar gyfer craffu: Gwerth am arian)*

Nodwn fod ymrwymiad clir yn y '*Rhaglen Lywodraethu'* i wella "dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng perfformiad awdurdodau lleol a'r cyllid a ddarperir ar eu cyfer, a defnyddio hyn i ddyrannu cyllid yn fwy effeithiol er mwyn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau".

Yn y cyd-destun hwn, fel rhan o'n gwaith o ystyried y gyllideb ddrafft y llynedd, gwnaethom argymell y dylai eich rhagflaenydd sicrhau bod effeithiolrwydd ac effaith y cynllun Cytundebau Canlyniadau yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn ysgogi gwelliannau wedi'u targedu ym maes llywodraeth leol ac yn llwyddo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

Rydym yn falch o glywed eich bod yn bwrw ymlaen â hyn a'ch bod wedi adolygu'r dangosyddion. Roeddem hefyd yn falch o glywed am y gynhadledd cymorth a gwella, y bu swyddogion a rheoleiddwyr ynddi yn ogystal ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dywedasoch wrthym fod y gynhadledd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod awdurdodau lleol unigol, gyda golwg ar nodi'r meysydd a ganlyn: "areas where there are issues with capacity and capability so that we (…) can begin to work with those authorities to address problems before they become failures."

Rhoesoch nifer o enghreifftiau inni o'r hyn yr oedd y cytundebau canlyniadau presennol wedi'u cyflawni, ac rydym yn croesawu hynny. **Credwn y dylech barhau i fonitro effeithiolrwydd y cynllun a byddem yn falch o gael adroddiad cynnydd gennych maes o law ynghylch unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r gynhadledd cymorth a gwella.**

**At hynny, gwnaethoch gytuno i roi enghreifftiau o achosion pan na roddwyd cyllid cytundebau canlyniadau i awdurdodau lleol mewn blynyddoedd blaenorol.**

Yn fwy cyffredinol mewn perthynas â chyllid awdurdodau lleol, er ein bod yn cydnabod mai cyrff awtonomaidd sy'n gyfrifol am benderfyniadau gwariant ynghylch gwasanaethau statudol ac anstatudol yw awdurdodau lleol, credwn fod rôl bellach i Lywodraeth Cymru o ran monitro'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwario'r arian hwn, a hynny er mwyn sicrhau y ceir gwerth am arian, ac er mwyn gwerthuso'r modd y mae'r canlyniadau hynny yn cyfrannu at nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. **Hoffem glywed rhagor gennych ar y pwynt hwn, ac yn benodol am y modd y defnyddir yr ymrywmiad yn y 'Rhaglen Lywodraethu' i wella "dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng perfformiad awdurdodau lleol a'r cyllid a ddarperir ar eu cyfer" i "ddyrannu cyllid yn fwy effeithiol er mwyn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau".**

**5. Cydweithredu**
*(Amcanion craffu: gwerth am arian a blaenoriaethu)*

Roeddem yn falch o gael cadarnhad gennych y byddai arian o'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol yn parhau i fod ar gael dros y ddwy flynedd nesaf a'ch bod yn ystyried a ddylai'r gronfa barhau ar ôl y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, **hoffem gael eglurhad gennych ynghylch faint o'r Gronfa Cydweithredu**

**Rhanbarthol sydd ar gael o hyd i brosiectau yn 2014-15 a 2015-16. Credwn y dylech barhau i adolygu effaith ac effeithlonrwydd y gronfa hon.**

O ran yr agenda cydweithredu yn gyffredinol, fel rhan o'n hymchwiliad i gydweithio ar lefel llywodraeth leol, cawsom dystiolaeth gan Ysgol Fusnes Caerdydd yn nodi nad oedd perfformiad prosiectau cydweithredu yn cael ei asesu. Wrth ymateb i hyn, dywedasoch, er eich bod yn monitro prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel y rhai a gaiff eu hariannu drwy'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, mai'r awdurdodau lleol eu hunain sy'n gyfrifol am fonitro'r prosiectau cydweithredu a gyflwynwyd ganddynt. Er ein bod yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn sefydliadau awtonomaidd, rydym yn credu bod gwerth mewn gwerthuso effaith y prosiectau hyn o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd, gwella gwasanaethau a gwerth am arian, a gofynnwn ichi roi ystyriaeth bellach i hyn.

**6. Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor**
*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd a blaenoriaethu)*

Gwnaethom ofyn i chi am y trefniadau ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor ac roeddem yn falch o glywed eich datganiad eich bod wedi ymrwymo i roi'r £222 miliwn yr ydych yn ei gael gan Lywodraeth y DU i mewn i'r grant cynnal refeniw.

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i sicrhau bod y cynlluniau'n darparu cymorth i gartrefi agored i niwed a chynnal yr hyn y caiff unigolion cymwys ei hawlio ar yr un lefel ag y mae ar hyn o bryd am flwyddyn arall. Fodd bynnag, rydym yn nodi na fyddwch yn cyflenwi'r prinder i gyd yn y gefnogaeth ariannol ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15 a'ch bod wedi ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol y bydd yn rhaid iddynt rannu'r gost o dalu am y prinder hwnnw.

**Hoffem glywed mwy o fanylion gennych chi am sut yr ydych yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn rhannu cost y prinder, oherwydd nid oes gennym syniad clir o'r beichiau ariannol ychwanegol y bydd hyn yn gosod arnynt.**

Rydym yn deall y bydd y Cynulliad yn trafod Rheoliadau drafft Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn nes ymlaen yn y tymor hwn. Bydd y Rheoliadau hynny'n cyflwyno'r cynlluniau o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Edrychwn ymlaen at y ddadl honno a hyderwn y bydd y Gweinidog yn parhau i weithio'n agos gyda'r awdurdodau i sicrhau bod y cynlluniau yn darparu ar gyfer y bobl fwyaf anghennus.

Rydym yn deall eich bod yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd i ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol hirdymor cymorth treth gyngor yng Nghymru. **Gofynnwn eich bod yn cyflwyno adroddiad inni ar gasgliadau'r adolygiad hwnnw pan fo'n briodol gwneud hynny.**

Ymhellach, **gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y mae elfen cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor y grant cynnal refeniw wedi cael ei dosbarthu i bob awdurdod lleol eleni a sut, o bosibl, y bydd hyn yn cael ei wneud flwyddyn nesaf.**

## 7. Deddfwriaeth

*(Amcan craffu: fforddiadwyedd)*

Gwnaethom ofyn i chi am y ddarpariaeth yr ydych wedi'i gwneud yn y grant cynnal refeniw i awdurdodau lleol dalu am gostau deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad ac, yn enwedig, sut yr ydych yn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol i lywodraeth leol dalu costau is-ddeddfwriaeth. Dywedasoch: "in practice, much of the secondary legislation that is passed by the Welsh Government forms part of the implementation of primary legislation, which has been costed through the RIA process."

Byddwn yn ystyried yn ofalus y wybodaeth ariannol a ddarperir fel rhan o'r dogfennau a fydd yn cyd-fynd â phob Bil sy'n dod gerbron y pwyllgor a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

Ymhellach, gwnaethoch gytuno i drefnu bod nodyn yn cael ei ddarparu sy'n egluro o gyllideb pa Weinidog y daw'r arian ar gyfer gweithredu'r Bil Teithio Llesol (Cymru).

- ***Trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig***
  *(Amcanion craffu: blaenoriaethu, gwerth am arian a fforddiadwyedd)*

Rydym yn croesawu'r cynnydd o £0.3 miliwn yn y grant gwasanaethau cam-drin domestig, i £4 miliwn. Rydym hefyd yn croesawu sefydlu'r adolygiad annibynnol o'r holl wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym yn nodi y disgwylir i'r adroddiad gael ei gyflwyno i chi erbyn diwedd y mis ac y bydd ei gasgliadau yn cyfrannu at benderfyniadau ar ariannu yn y maes hwn yn y dyfodol, yn ogystal â chynnwys y Bil sydd ar y gweill ynghylch rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Edrychwn ymlaen at weld yr adroddiad maes o law.

O ran y Bil hwnnw, dywedasoch eich bod yn rhagweld y telir am yr adnoddau a ddefnyddir i weithredu'r cynigion drwy'r grant gwasanaethau cam-drin domestig. Dywedasoch hefyd bod goblygiadau o ran cost i unrhyw ddeddfwriaeth, gan ychwanegu: "I hope that I have put enough extra in".

Rydym yn cydnabod na fydd goblygiadau ariannol y Bil yn effeithio ar y gyllideb tan 2015-16; fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig iawn cyfrifo costau pob cynnig deddfwriaethol a bod y wybodaeth honno yn cael ei chyflwyno'n glir fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol. At hynny, rydym yn credu y dylech adolygu'r rhan hon o'r gyllideb ar ôl i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Cynulliad.

- ***Cyfiawnder ieuenctid***
  *(Amcanion ar gyfer craffu: blaenoriaethu a fforddiadwyedd)*

Rydym yn nodi y bydd cyllid yn y maes hwn yn cael ei gynnal ar lefel o £5.2 miliwn ar gyfer 2014-15.

Rydym yn croesawu'ch cyhoeddiad am gyflwyno Bil annibynnol ar gyfiawnder ieuenctid. Gwnaethom ofyn a fyddech yn gallu fforddio talu am effaith y Bil gan

nad oes cynnydd yn y gyllideb. Mae eich ateb yn ein pryderu: "at the moment, I think that I can, but this Bill will not be introduced until 2015 (…) so it is something that we will have to look at …".

Fel y nodwyd gennym uchod, rydym yn credu ei bod yn bwysig cyfrifo costau pob darn o ddeddfwriaeth a bod y wybodaeth honno yn cael ei chyflwyno'n glir fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol. Byddwn yn edrych ar y wybodaeth ariannol yn ofalus ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno ac yn ysgrifennu atoch eto os byddwn yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnom.

Ar bwynt cysylltiedig, oherwydd nid yw cyfraddau aildroseddu wedi syrthio ymysg troseddwyr ifanc, **hoffem i chi ddarparu gwybodaeth bellach am eich cynlluniau i ostwng cyfraddau aildroseddu heb unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.**

**8. Gwariant ataliol**
*(Amcanion craffu: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

Gwnaethom ofyn i chi ddarparu darlun o wariant ataliol o fewn eich portffolio a sut yr ydych yn cynllunio ar gyfer hyn. Dywedasoch: "it is very difficult to identify the proportion that goes on preventative measures because they can vary locally from local authority to local authority. It depends on what decisions they take as they take their budgets through". Gwnaethoch gadarnhau bod penderfyniadau am wariant ataliol yn cael eu gwneud ar lefel leol gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dywedasoch: "there is a strong preventative focus to the effective services for vulnerable groups programmes, which can identify savings."

Gwnaethom ofyn sut yr ydych yn gwerthuso pa mor gosteffeithiol yw gwariant ataliol, o ystyried eich sylwadau am anawsterau o ran mesur hyn.  Wrth ymateb i hyn, dywedasoch fod nifer o raglenni yn eich prif grŵp gwriant yn canolbwyntio ar annog a chefnogi symud gwariant i fodelau ataliol o gyflenwi gwasanaethau.

Hefyd, gwnaethom ofyn am eich sylwadau ynghylch a ddylid cael mwy o gyfeirio canolog yn y maes hwn ac a oes angen i awdurdodau lleol wybod yn glir beth yw'ch bwriadau chi ynglŷn â gwariant ataliol. Dywedasoch eich bod yn credu bod awdurdodau lleol yn glir iawn am hyn. Gwnaethoch gyfeirio at seminar a fydd yn cael ei chynnal ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, gan awgrymu y gallech ystyried gwariant ataliol fel rhan o'r seminar honno i weld sut y gallwch helpu awdurdodau lleol i ddangos hyn llawer yn gliriach.

Yn seiliedig ar eich tystiolaeth, nid ydym wedi llwyddo i gael darlun clir o'r ymrwymiadau gwariant ataliol o fewn eich portffolio chi yn benodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwariant ataliol yn rhan o sawl elfen ar wariant llywodraeth leol, yn ogystal â phortffolios eraill Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Rydym yn cytuno â'ch awgrym y gallai gwariant ataliol ym maes llywodraeth leol gael ei ystyried fel rhan o'r seminar a gynhelir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. **Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich gwerthusiad o'r seminar maes o law, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau neu gamau i'w cymryd y cytunwyd arnynt mewn perthynas â mesurau gwariant ataliol yn benodol**.


## 9. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fel rhan o'n trafodaethau â chi ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gwnaethoch gadarnhau eich bod yn disgwyl i'r holl awdurdodau lleol ymgymryd â'u hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu hunain wrth iddynt fynd drwy eu prosesau cyllidebol. Dywedasoch na fyddech o reidrwydd yn monitro'r broses honno ond eich bod yn disgwyl i'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gael eu cyhoeddi ac y bydd yr asesiadau yn destun gwaith ymgynghori ochr yn ochr â chynigion cyllidebol pob awdurdod lleol. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r holl asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu dwyn ynghyd mewn un lle ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi gan yr awdurdod lleol perthnasol er mwyn iddynt gael eu trafod. Rydym yn nodi eich bod wedi cytuno i drefnu hyn, oni bai bod y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am faterion cydraddoldeb wedi gwneud hynny eisoes.

## 10. Materion eraill

Yn ogystal â'r materion y cyfeirir atynt uchod, **gwnaethoch gytuno i ddarparu nodyn yn egluro a oes unrhyw gyfyngiadau ar awdurdodau lleol o ran eu gwerthiannau masnachol, ac, os felly, a oes unrhyw gynlluniau i adolygu hynny er mwyn galluogi awdurdodau lleol i greu mwy o incwm**.

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

Cc. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid